Asiantaeth
Safonau
Bwyd
food.gov.uk
AROLYGIADAU
CYFRAITH BWYD
A'CH BUSNES

Arolygiadau cyfraith bwyd a'ch busnes

Os ydych chi'n rhedeg busnes sy'n gwneud neu'n paratoi bwyd, bydd yn cael ei arolygu i sicrhau eich bod yn dilyn cyfraith bwyd. Bydd yr arolygwyr yn swyddogion gorfodi o'ch awdurdod lleol (neu gyngor dosbarth yng Ngogledd Iwerddon).

Mae'r llyfryn hwn yn egluro'r hyn y gallai arolygiadau ei gynnwys a'r camau y gall arolygwyr eu cymryd os gwelant broblem yn eich busnes.

1

Beth yw diben yr arolygiadau 2
Sicrhau bod bwyd yn ddiogel i'w fwyta 3
Sicrhau nad yw disgrifiadau yn gamarweiniol 3
Pa mor aml y cynhelir arolygiadau 3

2

Yr hyn y mae arolygwyr yn ei wneud 4
Ymweliadau arolygu 5
Cymryd camau 6
Apelio 7

Rhagor o wybodaeth 8

Beth yw diben yr arolygiadau

Beth yw diben yr arolygiadau

Sicrhau bod bwyd yn ddiogel i'w fwyta

Bydd yr arolygwyr yn ymweld â'ch busnes i sicrhau eich bod yn cynhyrchu bwyd sy'n ddiogel i'w fwyta. Er mwyn gwneud hyn, byddant yn edrych ar:

> eich safle

> y math o fwyd sy'n cael ei wneud neu'i baratoi gennych

> eich ffordd o weithio

> eich system rheoli diogelwch bwyd

Er mwyn cael gwybodaeth am y gofyniad cyfreithiol o ran diogelwch a hylendid bwyd, gweler gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB): **food.gov.uk/foodindustry/regulation** a'r llyfryn 'Hylendid bwyd - canllaw i fusnesau' neu cysylltwch â gwasanaeth iechyd yr amgylchedd eich awdurdod lleol.

Sicrhau nad yw disgrifiadau yn gamarweiniol

Bydd yr arolygwyr hefyd yn edrych ar sut ydych chi'n disgrifio bwyd, er enghraifft ar fwydlen neu label, er mwyn sicrhau nad yw'r disgrifiad yn camarwain cwsmeriaid.

I gael rhagor o wybodaeth am ddisgrifio bwyd, ewch i wefan yr ASB: **food.gov.uk**

Pa mor aml y cynhelir arolygiadau

Gallai arolygwyr ddod i'ch gweld fel rhan o ymweliad rheolaidd, neu gallent ymweld â chi am eu bod wedi derbyn cwyn. Bydd pa mor aml y bydd yr arolygwyr yn arolygu eich busnes yn dibynnu ar y math o fusnes a'i record flaenorol. Efallai y bydd rhai safleoedd yn cael eu harolygu o leiaf bob chwe mis, ac eraill yn llawer llai aml.

Mae gan arolygwyr yr hawl i ymweld â safleoedd bwyd a'u harolygu ar unrhyw adeg rhesymol. Nid oes yn rhaid iddynt drefnu apwyntiad a byddant yn cyrraedd yn ddirybudd fel arfer.

Yr hyn y mae arolygwyr yn ei wneud

Yr hyn
y mae arolygwyr
yn ei wneud

Ymweliadau arolygu

Pan fydd arolygwyr yn ymweld â safle, mae'n rhaid iddynt ddilyn Cytundeb Fframwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar orfodi cyfraith bwyd gan awdurdodau lleol, a'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Mae'r Cytundeb Fframwaith yn pennu safonau o ran sut y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau gorfodi. Gallwch ei ddarllen ar wefan yr ASB: **food.gov.uk**

Gallwch ddisgwyl i'r arolygwyr ddangos prawf adnabod i chi pan fyddant yn cyrraedd a bod yn gwrtais drwy gydol yr ymweliad. Dylent roi adborth i chi ar yr arolygiad bob amser. Mae hyn yn golygu y byddant yn rhoi gwybod i chi am unrhyw broblemau y maent wedi'u nodi a'ch cynghori sut y gellir eu hosgoi.

Os bydd arolygwyr yn eich cynghori i weithredu ar unrhyw beth, mae'n rhaid iddynt nodi p'un a oes angen i chi wneud hynny i gydymffurfio â'r gyfraith, neu ai mater o arfer da ydyw.

Os gofynnir i chi weithredu o ganlyniad i'r arolygiad, mae'n rhaid i chi gael y rhesymau ar ffurf ysgrifenedig. Os bydd yr arolygwyr yn penderfynu eich bod yn torri unrhyw ddeddf, mae'n rhaid iddynt ddweud wrthych beth yw'r ddeddf honno.

Dylai'r arolygwyr roi amser rhesymol i chi wneud y newidiadau, ac eithrio lle y ceir risg sylweddol i iechyd y cyhoedd. Mae'n rhaid iddynt roi gwybod i chi sut y gallwch apelio yn erbyn eu camau hefyd (gweler tudalen 7).

Yr hyn
y mae arolygwyr
yn ei wneud

Cymryd camau

Pan fyddant o'r farn ei bod yn angenrheidiol, gall arolygwyr gymryd 'camau gorfodi', i ddiogelu'r cyhoedd. Er enghraifft, gallant:

> archwilio eich cofnodion

> cymryd samplau a lluniau o fwyd

> ysgrifennu atoch yn anffurfiol, gan ofyn i chi unioni unrhyw broblemau

> cadw neu atafaelu bwydydd y mae amheuon yn eu cylch

Gallant eich cyflwyno â hysbysiad hefyd. Mae tri phrif fath o hysbysiad:

> 'hysbysiad gwella hylendid', sy'n nodi pethau penodol y mae'n rhaid i chi eu gwneud i gydymffurfio, os yw eich busnes yn torri'r gyfraith

> 'hysbysiad gwahardd brys hylendid', sy'n gwahardd y defnydd o brosesau, safleoedd neu offer penodol ac mae'n rhaid i lys ei gadarnhau

> 'hysbysiad camau adfer' (sefydliadau cymeradwy yn unig), sy'n gwahardd y defnydd o brosesau, safleoedd neu offer penodol, neu sy'n gosod amodau ar sut y caiff proses ei chyflawni - mae'n debyg i hysbysiad gwahardd brys hylendid, ond nid oes angen i lys ei gadarnhau

Gall arolygwyr argymell erlyn hefyd, mewn achosion difrifol. Os bydd erlyniad yn llwyddiannus, gall y llys eich gwahardd rhag defnyddio prosesau, safleoedd neu offer penodol, neu gallech gael eich gwahardd rhag rheoli busnes bwyd. Gallai hefyd arwain at ddirwy neu gyfnod yn y carchar.

Yr hyn
y mae arolygwyr
yn ei wneud

Apelio

Mae'n rhaid bod gan bob awdurdod lleol weithdrefn ffurfiol i ymdrin â chwynion ynghylch ei wasanaeth. Felly os nad ydych chi'n cytuno â'r camau a gymerwyd gan arolygwr, dylech gysylltu â phennaeth adran iechyd yr amgylchedd neu safonau masnach eich awdurdod lleol, i weld pa un a ellir datrys y broblem drwy siarad neu drwy lythyr. Os ydych chi'n dal i anghytuno ar ôl hynny, dylech gysylltu â'ch cynghorydd lleol.

Os credwch fod eich awdurdod lleol yn cymhwyso'r gyfraith mewn ffordd sy'n wahanol i awdurdodau eraill, gallwch geisio cyngor gan Gydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol (LACORS), neu Bwyllgor Cydgysylltu Bwyd yr Alban, naill ai drwy eich cymdeithas masnach neu eich awdurdod lleol.

Gallwch apelio i'r llys ynadon (neu Siryf yn yr Alban) ynghylch penderfyniad awdurdod lleol i gyhoeddi hysbysiad gwella hylendid neu hysbysiad adfer, neu i beidio â chodi gorchymyn gwahardd brys hylendid. Pan waherddir unigolyn, dim ond y llys a all godi'r gwaharddiad hwnnw.

Pan fydd arolygwyr yn gosod hysbysiad gwahardd brys hylendid ar safle, proses, neu offer, mae'n rhaid iddynt wneud cais i'r llys (neu Siryf yn yr Alban) i'r hysbysiad gael ei gadarnhau o fewn cyfnod penodol.

Dim ond ar awdurdod Ynad Heddwch (neu Siryf) y gellir condemnio bwyd sydd wedi'i atafaelu gan arolygwr yn anaddas i'w fwyta gan bobl.

Gallwch fynychu'r gwrandawiad llys os dymunwch. Os bydd y llys yn penderfynu bod safle wedi'i gau heb reswm priodol, neu fod bwyd wedi'i atafaelu neu ei gadw ar gam, mae gennych yr hawl i gael iawndal.

Rhagor o wybodaeth

Gall eich awdurdod lleol roi cyngor i chi am gyfraith bwyd a'r wybodaeth am ddiogelwch bwyd sydd ei hangen arnoch chi a'ch staff. Mae gwybodaeth hefyd ar gael ar wefan yr ASB: **food.gov.uk** ac yn y cyhoeddiadau a restrir isod.

Cyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

Hylendid bwyd – canllaw i fusnesau
– canllaw cyffredinol ar reoliadau hylendid bwyd

Dechrau busnes – Eich camau cyntaf i redeg busnes arlwyo
– canllaw i fusnesau arlwyo newydd

I archebu copïau o'r llyfrynnau hyn neu unrhyw un o gyhoeddiadau eraill yr ASB, gweler y manylion cyswllt ar gefn y llyfryn hwn.

Pecynnau rheoli diogelwch bwyd

Os ydych yn rhedeg busnes arlwyo neu fusnes gwerthu bwyd bach, mae pecynnau ar gael gan yr ASB i'ch helpu i roi system rheoli diogelwch bwyd ar waith. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol am ragor o wybodaeth neu ewch i wefan yr ASB: **food.gov.uk**

Canllawiau'r diwydiant bwyd

Mae canllawiau'r diwydiant bwyd a gynhyrchir gan y diwydiant hefyd yn rhoi cyngor ar sut i gydymffurfio â rheoliadau hylendid bwyd. I gael manylion, ewch i wefan yr ASB: **food.gov.uk/industryguides**

www.food.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor ar fwyd, ewch i wefannau'r Asiantaeth Safonau Bwyd:

food.gov.uk

eatwell.gov.uk

Cofiwch glicio ar 'Cymraeg'

Cyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

I archebu copïau o'r llyfryn hwn neu un o gyhoeddiadau eraill yr Asiantaeth, cysylltwch â Chyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd:

ffôn	0845 606 0667
minicom	0845 606 0678
ffacs	020 8867 3225
e-bost	foodstandards@ecgroup.co.uk

Cyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd Medi 2006
Cyhoeddwyd gyda newidiadau Awst 2009
Dyluniwyd gan Hoop Associates

© Hawlfraint y Goron 2006
FSA/1075/0809

75% wedi'i ailgylchu
Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn ar bapur ailgylchu 75%

ailgylchwch
Ar ôl gorffen gyda'r llyfryn hwn a fyddech cystal â'i ailgylchu